# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Kieran Metson & Sara Dafydd

| | |
|---|---|
| **NOD CYNLLUN LLESIANT** | Bydd pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar lefydd yn anelu at fynd i'r afael â'r 6 nod llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol 2018-23, gan gyflenwi drwy fframwaith yn seiliedig ar lefydd. Mae'n blaenoriaethu integreiddio a chyfrannu ar gyfer cydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw Grŵp Prosiect** | Llesiant Llanbedr Pont Steffan |
| **Cadeirydd**<br>**Is-Gadeirydd** | **Elen James**, Cyngor Sir Ceredigion<br>**Gwilym Dyfri Jones**, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Y Cynghorydd Anne Morgan Bowen,** Catrin Evans, **Carwyn Young,** Cathryn Morgan, Connor Cook, Sarah Groves-Phillips, Gethin Jones, Llinos Hallgarth, Lowri Evans, Lynne Walters, **Rachel Auckland**, Alison Heal, Sian Salcombe, **Sara Humphreys, Rob Starr**<br>**<u>Tîm Cefnogi'r BGC:</u> Timothy Bray, Sara Dafydd, Kieran Metson**<br>**<u>Cyflwyno:</u> Eirlys Lloyd, Iwan Davies, Mari Jefferis** | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies, **Rachel Jarvis**, Thomas Vetter |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Jina Hawkes, Peter Skitt, Terri-Ann Patrick, Dr Philip Kloer, Nathan Davies, William Beharrell | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | Emyr Jones, **Hazel Thomas** |
| Heddlu Dyfed-Powys | Yr Arolygydd Matthew Howells | Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | **Wayne Thomas** |
| Barcud | Catrin Owen, Helen Draycott | CAVO | Hazel Lloyd-Lubran, **Teleri Davies** |
| Home-Start | **Sharon Morris** | Ysgol Bro Pedr | **Deiniol Williams** |
| Banc Bwyd Llanbed | **Julia Lim** | Canolfan Teulu Llambed | Elin Miles, Jen Leigh |
| Arts4Wellbeing | Mike Hotson, Sara Wentworth | Tai Wales & West | Rhiannon Ling [**Helen Hapgood**] |
| Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Roxanne Treacy, Vikki Butler | | |

**CRYNODEB O GYFARFOD GRŴP PROSIECT**

| **Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 03.05.23** |
|---|
| **<u>6.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</u>**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:<br>*Catrin Evans, Dr Phil Kloer, Gethin Jones, Yr Arolygydd Matthew Howells, Jan Batty, Jen Leigh, Nathan Davies, Peter Skitt, Rhiannon Ling, Roxanne Treacy, Sian Salcombe, Llinos Hallgarth.*<br><br>**<u>6.2 Cofnodion a materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf</u>**<br>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023 yn gywir. Rhoddodd Sara Dafydd (SD) ddiweddariad am y camau gweithredu a gytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf. Roedd rhan fwyaf y camau gweithredu wedi'u cwblhau a byddai'r cyflwyniadau a ofynnwyd amdanynt yn cael eu rhoi yn y cyfarfod hwn. Cytunwyd â'r Cadeirydd na ddylid ystyried templed y Cynllun |

DRAFT

Gweithredu hyd nes y byddai blaenoriaethau'r grŵp o ran cyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol newydd wedi'u penderfynu. Gwnaeth SD hefyd nodi bod penderfyniad wedi'i wneud i ohirio cyfarfodydd y grwpiau Gorchwyl a Gorffen am y tro fel y gellid ystyried y diweddariad y byddai Eirlys Lloyd (EL) yn ei roi yn y cyfarfod, ac i sicrhau nad oedd y gwaith a oedd yn cael ei wneud fel rhan o'r Grant Partneriaethau Bwyd Lleol yn cael ei ddyblygu. Yn olaf, nid oedd Dr Phil Kloer (PK) ar gael i ddod i'r cyfarfod hwn heddiw nac ychwaith ar gael i ddod i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf i roi cyflwyniad ynghylch 'Creu Newid yng Ngheredigion'. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a ddylid trefnu cyfarfod arbennig o'r is-grŵp a fyddai'n canolbwyntio ar y cyflwyniad hwn.

**6.3 Penodi Is-gadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd fod mater penodi is-gadeirydd i'r is-grŵp wedi'i drafod â Gwilym Dyfri Jones (GDJ) cyn y cyfarfod. Yn ystod y sgwrs honno, cynigiwyd y rôl i GDJ. Dywedwyd bod GDJ wedi derbyn y cynnig a bod angen i'r is-grŵp yn awr gymeradwyo'r penodiad. Cymeradwyodd aelodau'r is-grŵp y cynnig hwn yn unfrydol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n dechrau'n fuan ar secondiad fel Prif Swyddog Addysg Cyngor Sir Ceredigion a chadarnhaodd y byddai angen trafod â'r sawl a fyddai'n ei holynu fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar y trefniadau ynghylch ymgymryd â rôl Cadeirydd yr Is-grŵp. Cadarnhawyd y byddai Swyddog Arweiniol Corfforaethol newydd Porth Cymorth Cynnar yn cael ei benodi yn yr wythnosau nesaf. Nododd y Cadeirydd y byddai angen cael trafodaeth ynghylch y cyfnod o amser yr oedd Cadeirydd yn aros yn y rôl gan wneud penderfyniad ynghylch hyn. Cynigiodd y gallai'r manylion hyn gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf. Diolchodd SD a GDJ i'r Cadeirydd am ei gwaith caled a'u hymrwymiad i'r is-grŵp ers ei sefydlu a bu iddynt ddymuno'n dda iddi yn ei rôl newydd.

**6.4 Diweddariad: Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 – Sara Dafydd**

Cyhoeddodd SD fod Tim Bray (TB) wedi'i benodi'n Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil ar ôl i Naomi McDonagh adael yr Awdurdod Lleol. Rhoddodd SD ddiweddariad am Gynllun Llesiant Lleol 2023-28, a gafodd ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar 24 Ebrill 2023, a'i gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 2 Mai 2023. Cadarnhaodd SD y byddai Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 yn cael ei ddosbarthu i'r is-grŵp, a dywedodd y byddai angen trafodaeth yn y cyfarfod nesaf ynghylch y blaenoriaethau y byddai'r is-grŵp yn canolbwyntio ei ymdrechion arnynt yn y lle cyntaf y flwyddyn nesaf, gan fynd ati i lunio Cynllun Gweithredu i sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu gwireddu.

Cadarnhawyd hefyd fod Cylch Gorchwyl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar hyn o bryd i sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu'r Cynllun Llesiant Lleol newydd a threfniadau'r is-grwpiau. Byddai Cylch Gorchwyl hefyd yn cael ei lunio ar gyfer pob un o is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a byddai hyn yn rhoi eglurder ynghylch yr amser y byddai'r Cadeiryddion yn aros yn eu rolau.

DRAFT

**Cam Gweithredu: Byddai SD yn dosbarthu Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ar gyfer 2023-28.**
**Cam Gweithredu: Byddai eitem am gyflawni Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 yn cael ei hychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf.**

**6.5 Diweddariad: Grant Partneriaethau Bwyd Lleol Ceredigion – Eirlys Lloyd**
Roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi sicrhau cyllid oddi wrth yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Synnwyr Bwyd Cymru, i ddatblygu partneriaeth fwyd leol ar draws y Sir. Roedd y cyllid o £97,000 wedi'i roi ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024. Dywedodd EL fod y cyllid hwn yn rhoi'r cyfle i ddatblygu darnau o waith a oedd eisoes yn mynd rhagddynt megis Rhwydwaith Bwyd Ceredigion a gweithredu ar y sgyrsiau yr oedd yr is-grŵp hwn wedi'u cael ynglŷn â bwyd a llesiant.

Roedd y Partneriaethau Bwyd Lleol yn dod ag unigolion a sefydliadau ynghyd gyda'r bwriad o weithio tuag at system fwyd leol a oedd yn gynhwysol, yn deg ac yn gynaliadwy. Roeddent hefyd yn hwyluso gweithgarwch traws-sector a oedd yn cefnogi'r economi leol, yn gwella iechyd a llesiant, yn hybu adfywio cymdeithasol a diwylliannol, yn meithrin adferiad natur ac yn cyfrannu at leihau allyriadau wrth geisio cyrraedd yr uchelgais o fod yn sero net. Byddai rhaglen waith y flwyddyn dan sylw yn canolbwyntio ar gomisiynu a phenodi sefydliad i hwyluso a gweinyddu'r Bartneriaeth, a chadarnhaodd EL mai Menter a Busnes oedd yr ymgeisydd llwyddiannus ac a fyddai felly yn cyflawni'r gwaith. Y dasg gyntaf fyddai creu map o'r gweithgareddau a oedd eisoes yn digwydd yn y sir cyn mynd ati i hwyluso digwyddiadau ymgysylltu a rhwydweithio rheolaidd, cynnwys rhanddeiliaid allweddol er mwyn casglu adborth wrth gyfrannu at ganfyddiadau gan eu datblygu a'u hintegreiddio, a chydweithio i gydlynu gweledigaeth, cenhadaeth a chynllun gweithredu ar gyfer y sir. Rhaid iddynt hefyd weithio â'r rhanddeiliaid i nodi sut mae datblygu system fwyd leol a chynaliadwy a fyddai'n cyflawni'r holl fuddion a nodwyd uchod, llunio camau gweithredu i ddatblygu'r amcanion yn ystod y 12 mis nesaf a thu hwnt, a rheoli cronfa ddatblygu'r bartneriaeth leol.

Cadarnhaodd EL fod cyfarfod wedi'i drefnu â Menter a Busnes yn ystod y 10 diwrnod nesaf i drafod manylion cyflawni'r hyn a oedd wedi'i gomisiynu. Gan ein bod yn gweithio drwy Bartneriaeth Adfywio Economaidd Lleol Cynnal y Cardi, byddai modd defnyddio'r rhwydwaith eang o gysylltiadau perthnasol. Cadarnhaodd EL fod nifer o oriau hefyd wedi'u neilltuo i Synnwyr Bwyd Cymru gefnogi'r darn hwn o waith.
**Cam Gweithredu: Byddai SD yn dosbarthu'r sleidiau a ddangoswyd fel rhan o'r cyflwyniad am Grant Partneriaethau Bwyd Lleol Ceredigion.**
**Cam Gweithredu: Byddai SD ac EL yn cael sgwrs ynglŷn â gwahodd swyddogion Menter a Busnes i'r cyfarfod nesaf i roi diweddariad am y cynnydd yr oeddent yn ei wneud.**

DRAFT

**6.6 Cyflwyniad: Cysylltwyr Cymunedol Ceredigion– Sara Humphreys**

Roedd Tîm y Gofalwyr a Chymorth Cymunedol yn datblygu cyfleoedd a gwasanaethau i gefnogi pobl yn eu cymunedau. Roedd y tîm yn gweithio gyda phobl o bob oed, gan eu cysylltu nhw â chymorth unigol neu gymorth grŵp a fyddai'n gyfleus iddyn nhw. Gallai'r tîm wneud hyn drwy gydweithio'n agos â chydweithwyr ar draws yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Iechyd a'r rheiny yn y trydydd sector gan sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn. Yn ogystal â bod yn rhan o'r model gydol oes a llesiant a gweithio gyda'r cyhoedd yn gyffredinol, roedd y tîm hefyd yn canolbwyntio ar feysydd arbenigol megis Heneiddio'n Well yng Ngheredigion, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Cysylltwyr Cymunedol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr.

Dywedodd Sara Humphreys (SH) fod 6 o Gysylltwyr Cymunedol yn Nhîm y Gofalwyr a Chymorth Cymunedol, a bod gan bob un ohonynt eu hardaloedd penodol lle'r oeddent yn darparu cymorth. Sian Salcombe (SS) oedd Cysylltwr Cymunedol Llanbedr Pont Steffan ac roedd eisoes yn dod i gyfarfodydd yr is-grŵp. Roedd SS yn cynnal sesiwn galw heibio bob mis yn y llyfrgell leol yn Llanbedr Pont Steffan ac roedd hefyd yn mynd i Eglwys Sant Tomos a Phrosiect Bwyd Llanbedr Pont Steffan bob pythefnos. Roedd y Cysylltwyr yn darparu gwybodaeth a chyngor ac yn cynnal sesiynau hyfforddi a gweithdai ar amrywiaeth eang o bynciau gan gynnwys ymyriadau a oedd wedi'u teilwra'n arbennig i anghenion penodol. Hefyd, rhannodd SH wybodaeth am Dewis Cymru, cronfa ddata / peiriant chwilio ym maes gofal cymdeithasol a llesiant a oedd yn caniatáu i bobl chwilio am wybodaeth, grwpiau cymorth a chynlluniau yn eu hardal leol fel y gallent gael help i ofalu am eu llesiant. Dyma wefan Dewis Cymru: https://www.dewis.cymru/

Yn ogystal â'r Cysylltwyr Cymunedol, roedd Cydlynwyr y Gofalwyr a Chymorth Cymunedol, Swyddogion Datblygu Gofalwyr a Chysylltwyr Digidol hefyd yn yr un tîm. Rhannodd SH strwythur y sefydliad ar y sgrin a byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r aelodau yn dilyn y cyfarfod. Dyma fanylion cyswllt Tîm y Gofalwyr a Chymorth Cymunedol: connecting@ceredigion.gov.uk / 01545 574200.

**Cam Gweithredu: Byddai SD yn dosbarthu'r sleid a oedd yn cynnwys gwybodaeth am Dîm y Gofalwyr a Chymorth Cymunedol.**

Ar yr adeg hon yn y cyfarfod, ymddiheurodd y Cadeirydd y byddai'n rhaid iddi adael y cyfarfod am fod ganddi ymrwymiad arall. Cadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan yr is-gadeirydd GDJ.

**6.7 Er gwybodaeth: Digwyddiadau Porth Cymorth Cynnar yn y Bandstand yn Aberystwyth – Iwan Davies a Mari Jefferis**

Dywedodd Iwan Davies (ID) a Mari Jefferis (MJ) fod Porth Cymorth Cynnar wedi cynnal dau ddigwyddiad o'r enw 'Dechrau da i'r Flwyddyn Newydd' yn y Bandstand yn ym mis Ionawr 2023 gan ddefnyddio arian o'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio

Sylweddau. Bwriad y digwyddiadau oedd dod â nifer o wasanaethau'r Awdurdod Lleol ynghyd i gyfeirio pobl at wasanaethau llesiant, rhannu gwybodaeth, darparu canllawiau am ddefnyddio alcohol yn ddiogel, a chynnal amrywiol weithdai. Yn unol â'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes, roedd y digwyddiadau hyn yn hyrwyddo materion megis dechreuadau newydd, bwyta'n iach, cadw'n heini a rhoi cynnig ar ddiddordebau newydd. Cafodd y digwyddiadau dderbyniad da iawn. Daeth 175 o bobl i'r digwyddiadau a chafwyd adborth cadarnhaol.

Yn dilyn y diweddariad, cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai'r is-grŵp gynnal digwyddiad tebyg yng Nghanolfan Lles newydd Llambed unwaith y byddai wedi agor. O wneud hyn, byddai modd gwahodd y trigolion lleol i'r Ganolfan newydd, ac i ddysgu am grwpiau, gwasanaethau cymorth a digwyddiadau lleol yn ardal Llanbedr Pont Steffan. Roedd yr is-grŵp yn awyddus i ddatblygu'r syniad hwn a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf ar ôl penodi Cadeirydd newydd.

**Cam Gweithredu: Byddai eitem am y posibilrwydd o gynnal digwyddiad yng Nghanolfan Lles Llambed yn cael ei chynnwys ar Agenda'r cyfarfod nesaf.**

**6.8 Diweddariad: Canolfan Lles Llambed – Carwyn Young**

Dywedodd Carwyn Young (CY) mai'r gobaith oedd y byddai'r Ganolfan Les yn cael ei throsglwyddo i'r Awdurdod Lleol ar 12 Mai, er y byddai rhywfaint o fân waith i'w wneud ar ôl hynny. Cadarnhaodd CY mai'r bwriad oedd cynnal diwrnodau agored i'r gymuned yn y Ganolfan er mwyn annog y trigolion lleol i ddod i'r Ganolfan a gweld yr hyn oedd ar gael iddynt. Dywedodd CY ei fod ef hefyd yn cefnogi'r syniad o gynnal digwyddiad fel rhan o waith yr is-grŵp yn y Ganolfan. Diolchwyd i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant am gynnal y gweithgareddau a arferai gael eu cynnal yn y Ganolfan Hamdden pan oedd y gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Roedd hyn wedi sicrhau bod trigolion Llanbedr Pont Steffan wedi medru parhau i dderbyn darpariaeth hamdden. Roedd datblygiadau mawr bellach yn cael eu gwireddu a bu i CY annog aelodau'r is-grŵp i ymweld â'r Ganolfan pan fyddai'n agor yn yr wythnosau nesaf.

Cynigiodd SD y byddai modd dosbarthu'r wybodaeth am y diwrnodau agored i aelodau'r is-grŵp fel y gallent ei rhannu ymhlith y bobl/sefydliadau a oedd yn rhan o'u rhwydweithiau er mwyn denu cynifer o bobl ag y bo modd i'r diwrnodau hyn. Wrth ymateb i gwestiwn gan Julia Lim (JL) ynghylch sut y byddai'r diwrnodau agored yn cael eu hyrwyddo, cadarnhaodd CY fod Swyddog Marchnata wedi'i benodi a fyddai'n hwyluso'r broses.

**Cam Gweithredu: Byddai CY yn rhannu manylion am unrhyw ddiwrnodau agored i'r gymuned yng Nghanolfan Lles Llambed a byddai SD yn dosbarthu'r wybodaeth ymhlith aelodau'r is-grŵp.**

DRAFT

**6.9 Eitem Sefydlog: A oes angen i ni drafod unrhyw fater a godwyd â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru?**

Bu i SD atgoffa aelodau'r is-grŵp fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ffodus o gael cefnogaeth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, a fu'n hwyluso'r gwaith o baratoi'r Cynllun Llesiant Lleol. Byddai'r Rhwydwaith yn awr yn cynorthwyo ag amrywiol agweddau ar y gwaith o gyflawni'r cynllun. Gan na fyddai'n ymarferol i gynrychiolwyr o Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ddod i bob un o gyfarfodydd yr is-grwpiau am eu bod yn cefnogi amrywiol Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru, nodwyd y byddai'r eitem sefydlog hon yn atgoffa'r is-grŵp o'r adnodd hwn. O ystyried y trafodaethau a gafwyd yn y cyfarfod hwn, cytunwyd y byddem yn cysylltu â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru i drafod ffyrdd o hwyluso digwyddiad arfaethedig yr is-grŵp yn y Ganolfan Les gan wneud hynny ar ôl trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**6.10 Unrhyw Fater Arall**

Cadarnhaodd CY fod Grŵp Llywio prosiect 'Creu Newid yng Ngheredigion' Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda dal yn ei fabandod, a bod ganddynt ddiddordeb mewn gweithio gyda'r gymuned yn ardal Llanbedr Pont Steffan fel rhan o'r newid tuag at Fodel Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant. Cytunwyd y byddai cyfarfod arbennig o'r is-grŵp yn cael ei drefnu er mwyn derbyn cyflwyniad gan PK ar y prosiect, ac ystyried sut y gellid annog cydweithio rhwng y grwpiau a sicrhau na fyddai dim dyblygu yn digwydd.

**Cam Gweithredu: Byddai SD yn trefnu cyfarfod arbennig o'r is-grŵp fel y gellid canolbwyntio ar y prosiect 'Creu Newid yng Ngheredigion'.**

Daeth GDJ â'r cyfarfod i ben a diolchodd i'r aelodau am eu cyfraniadau.

**Cyfarfod nesaf:** 20.07.23, 10:00-12:00

DRAFT